

## **Cnydau ynni o dan y chwyddwydr**

Yn ddiweddar, mae'r wasg boblogaidd wedi bod yn barod iawn i ddiystyru cynydau ynni fel ffordd aneffeithlon ac anghynaliadwy o ddatrys problemau ynni'r byd.

Mynegwyd pryderon am yr ôl troed carbon wrth gynhyrchu tanwydd o gnydau blynyddol fel rēp had olew, indrawn a grawnfwydydd lle defnyddir llawer iawn o gemegau - a'r teimladau anniddig yngly^n â defnyddio tir amaethyddol i gynhyrchu ynni yn lle bwyd.

Ond mae mwy i gnydau ynni na biodanwydd yn unig. Mae gwaith Sefydliad Gwyddorau Biologol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) Aberystwyth yn canolbwyntio ar gnydau sy'n ffynhonnell ynni ac sy'n gollwng llai o nwyon carbon i'r atmosffer – cynydau y gellir eu cyflwyno ar ffermydd Cymru i wella elw ffermwyr heb wneud drwg i'r amgylchedd.

Un dewis cwbl ymarferol yw tyfu coed helyg a miscanthws fel cynydau biomas i gynhyrchu gwres ac ynni. Mae prosiect Helyg i Gymru wedi profi fod coed helyg yn addas ar gyfer priddoedd a thywydd Cymru, a'u bod yn gallu gwneud byd o les i'r amgylchedd.

Gyda chnydau'n barod i'w cynaeafu'r hydref hwn, a chynhyrchwyr ynni'n cynnig pris da iawn am naddion pren, mae'r ffactorau economaidd yn cymharu'n ffafriol iawn â dulliau eraill o ddefnyddio tir. Er bod grawnfwydydd yn ymddangos fel ffordd fwy proffidiol o ddefnyddio tir da, y gwirionedd yw bod maint yr elw am rawnfwydydd yn debygol o ostwng ymhell o dan £20 y dunnell oherwydd costau uchel gwrtait, tanwydd a chemegau.

Mae maint y cnwd a'i ansawdd yn elfennau hollbwysig o lwyddiant economaidd cynydau biomas. Mae bridwyr a gwyddonwyr IBERS yn datblygu mathau newydd o gnydau miscanthws er mwyn cynyddu maint y cnwd a'r ansawdd hylogsi. Bydd y mathau hyn yn cynhyrchu cnwd llawer mwy cystadleuol, yn cynyddu'r elw ac yn lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i dyfwyr adennill eu costau.

Ar y llaw arall, mae porfa yn gyfarwydd iawn i bob ffermwr – ac mae gwyddonwyr IBERS wrthi'n datblygu'r syniad o ddefnyddio porfa i gynhyrchu ynni bio-ethanol – sy'n cynnig dewis cyffrous arall i ffermwyr Cymru.

Bydd cyfle i ffermwyr a thyfwyr weld ffrwyth gwaith IBERS ar gnydau ynni ar Ddiwrnod Agored Cyswllt Ffermio ar 7 Hydref, a gynhelir ar gyfer CALU gan Ganolfan Datblygu Tir Glas ar safle IBERS Gogerddan ger Aberystwyth. I gadw lle, ffoniwch CALU ar 01248 680450, [calu@bangor.ac.uk](mailto:calu@bangor.ac.uk) neu Ganolfan Datblygu Tir Glas IBERS ar 01970 823058.